

CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd ar ffurf hybrid nos Lun 19 Rhagfyr 2022 am 7:00pm
yn yr Hen Lys ac ar-lein drwy Zoom.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes, Peter Daniels, Mike
van der Eijk, Gavin Harris, Dafydd Hughes, Ian Lewney, Anne Roberts,
Rachel Ryland, a Heather Williams
Cynghorydd Sir, Emrys Wynne.
I Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun
Kate Marcus – Dirprwy Glerc Tref Rhuthun
Marian Rees – Cyfieithydd

CROESO

Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb i gyfarfod olaf 2022 y Cyngor Tref. Yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, roedd y Maer wedi ymweld â sefydliadau gofal, tai gwarchod ac unedau'r gwasanaethau brys yn y dref gyda thocyn anrheg iddynt. Roedd calendr elusennol 2023 i gefnogi Elusennau'r Maer ar gael i'w brynu. Nos Fercher 21 Rhagfyr byddai'r Maer yn cynnal Cyngerdd Carolau yng Nghapel y Tabernacl. Y cyfarfod hwn oedd cyfarfod olaf y Clerc presennol cyn dechrau ei swydd newydd gyda Choleg Cambria ym mis Ionawr 2023.

152. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Christine Ellis, Jabez Redfern Oakes a Lisa Thomas a hefyd y Cynghorwyr Sir, Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

153. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Peter Daniels fuddiant yn yr eitemau a ganlyn:
'eitem 12 a 21 - 'Felodrom arfaethedig Rhuthun', gan ei fod yn byw ym Mharc Brynhyfryd.

154. ADRODDIAD Y MAER

Roedd adroddiad y Maer wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw. Yn ychwanegol at hynny, dywedodd y Maer ei bod wedi bod yn brysur gyda gweithgareddau'r banc bwyd a diolchodd yn ddiwyll i drigolion Rhuthun am eu cyfraniadau hael.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

155. ADRODDIAD YR AELODAU

Dosbarthwyd Adroddiad yr Aelodau ymlaen llaw a diolchwyd iddynt am eu gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD: *nodi Adroddiad yr Aelodau.*

156. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Rhoddodd y Cynghorydd Emrys Wynne ddiweddariad llafar. Dywedwyd fod ail arolwg topograffig wedi'i gynnal ar wal Nantclwyd y Dref, a dyna'r rheswm pam bod Gwninger y Dref bellach ar gau. Roedd disgwyl adroddiad ar ganlyniad yr arolwg.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad a derbyn canlyniad yr arolwg topograffig.*

157. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Trafododd yr Aelodau gywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2022.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod arferol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.*

158. MATERION YN CODI

Cofnod 140: 'Grŵp Gorchwyl Argyfwng Ecolegol a'r Hinsawdd'

- (i) Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd y byddai'r rhestr o eitemau yn ymwneud ag ecoleg a'r hinsawdd yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref er mwyn diffinio blaenoriaethau a sefydlu prosiectau a chamau gweithredu penodol fel sy'n briodol.
- (ii) Trafododd yr Aelodau'r datganiad cenhadaeth arfaethedig yn diffinio ymrwymiad y Cyngor Tref i'r argyfwng ecolegol a hinsawdd: 'ar ôl datgan argyfwng ecolegol a hinsawdd, bydd Cyngor Tref Rhuthun yn gweithredu o fewn ei bwerau a'i rwymedigaethau statudol i liniaru ei effaith ar yr hinsawdd ac ecoleg. Bydd y Cyngor Tref yn gweithio'n adeiladol gyda grwpiau eraill, cyrff statudol a'r gymuned i 'feddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol a sicrhau gweithredoedd cadarnhaol'. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd ar y datganiad cenhadaeth hwn.

Cofnod 141: Partneriaeth Llifogydd Rhuthun – Dywedodd y Cynghorydd Emrys Wynne, Cadeirydd y Bartneriaeth, y bwriadwyd cynnal cyfarfod i'r gymuned er mwyn sefydlu a chanolbwyntio ar ddatblygu cynllun llifogydd cymunedol. Er y gobeithiwyd gallu cynnal y cyfarfod cyn y Nadolig, ni fyddai'n digwydd tan dechrau 2023 bellach.

PENDERFYNWYD: y byddai

- (i) Y rhestr o eitemau yn ymwneud ag ecoleg a'r hinsawdd yn cael ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref er mwyn diffinio blaenoriaethau a sefydlu prosiectau a chamau gweithredu penodol fel sy'n briodol.
- (ii) Y datganiad cenhadaeth a ganlyn yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Trefl: 'ar ôl datgan argyfwng ecolegol a hinsawdd, bydd Cyngor Tref Rhuthun yn gweithredu o fewn ei bwerau a'i rwymedigaethau statudol i liniaru ei effaith ar yr hinsawdd ac ecoleg. Bydd y Cyngor Tref yn gweithio'n adeiladol gyda grwpiau eraill, cyrff statudol a'r gymuned i 'feddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol a sicrhau gweithredoedd cadarnhaol'.

159. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a nodwyd dyddiad newydd y cyfarfod nesaf, sef nos Lun 16 Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a nodi dyddiad newydd y cyfarfod nesaf, sef 16 Ionawr 2023.*

160 COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a nodwyd dyddiad newydd y cyfarfod nesaf, sef nos Lun 16 Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a nodi dyddiad newydd y cyfarfod nesaf, sef 16 Ionawr 2023.*

161. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022. Nodwyd fod yr adroddiad ar gais arfaethedig am drwydded alcohol ar gyfer yr Hen Lys wedi'i ohirio tan ddechrau 2023.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022.*

162. CAE DDOL

Yn dilyn pryderon gan Gynghorwyr Tref, rhoddodd y Cynghorydd Sir, Emrys Wynne drosolwg o'r gwaith o osod offer ymarfer newydd a ddarparwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yng Nghae Ddol wedi i arian gael ei ddyrannu. Roedd yr offer newydd yn disodli'r offer a oedd wedi pydru ac roedd o safon gwell. Ymgynghorwyd â Chynghorwyr Sir lleol a chytunwyd i osod yr offer yn amodol ar gytundeb y Swyddog Cadwraeth, a chafwyd y cytundeb hwnnw. Cadarnhawyd fod coeden dderw fawr dros 10 metr i ffwrdd o'r offer. Cafwyd canmoliaeth i'r offer a rhoddodd fwynhad i drigolion.

Mynegodd y Cynghorwyr Tref syndod bod offer chwarae/ymarfer newydd wedi cael ei osod yng Nghae Ddol gan Gyngor Sir Ddinbych heb ynghynghori â'r Cyngor Tref. Er nad oeddent yn feirniadol o'r egwyddor o newid yr offer, roeddent yn siomedig bod gwaith o'r fath wedi cael ei wneud heb drafod y mater, o ystyried y cyhoeddiad sydd ar ddod am y cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, a oedd yn cynnwys prosiect yn canolbwyngio ar agwedd gynhwysfawr, trawsnewidiol a holistig tuag at Gae Ddol (fel rhan o brosiect ehangach Parc Clwyd). Roedd y gwaith o lywio'r cais am arian Ffyniant Bro ar gyfer Cae Ddol yn cynnwys adborth gan drigolion a'r gymuned yn ehangach, ac roedd y ffaith i'r offer chwarae/ymarfer newydd gael ei leoli mewn ardal a nodwyd fel llwybr ar gyfer cerdded a beicio yn rhwystredig. Nid oedd agwedd mor ffwrdd-â-hi yn cefnogi'r weledigaeth strategol gydlynol ac ehangach ar gyfer Cae Ddol. Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd y Cyngor Tref wedi cefnogi cais Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mawrth 2022 i dderbyn symiau gohiriedig ar gyfer Cae Ddol o ystyried y cais cynhwysfawr am arian o'r Gronfa Ffyniant Bro a'r angen am ddull cydlynol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd Cae Ddol i drigolion ac ymwelwyr â Rhuthun a dywedwyd fod y Cyngor Tref wedi buddsoddi'n helaeth yn y parc sglefrio a gwelliannau i'r llyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er eu bod yn croesawu'r ffaith bod arian ar gael ar gyfer Cae Ddol, dywedodd y Cynghorwyr Tref fod y penderfyniad i wario ar offer y bydd angen ei dynnu oddi yno o bosibl, yn dibynnu ar gyngor proffesiynol, i fodloni uchelgais prosiect Cae Ddol yn ehangach yn gibddall. Efen o'r prosiect oedd cynnal asesiad proffesiynol o Gae Ddol fel amwynder i benderfynu ar y ffordd orau o wasanaethu a chefnogi gwahanol anghenion y mannau a'u defnyddwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Emrys Wynne hefyd: y byddai rhai meinciau yng Nghae Ddol yn cael eu symud oddi yno i osgoi ymyrraeth anfwriadol; byddai meinciau picnic yn cael eu hangori i leoliadau penodol; ac y byddai'r llong môr ladron yn cael ei gwella a'i thrwsio.

Cytunodd y Cynghorwyr Tref y dylid anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn am ymddiheuriad ac yn mynegi siom yn y diffyg cwrteisi, ymgysylltiad, ymgynghori a chyfathrebu â'r Cyngor Tref ar osod yr offer ymarfer newydd yng Nghae Ddol, a'r difaterwch amlwg ynghylch y gwaith cynhwysfawr a'r dull strategol a gymerwyd gan y Cyngor Tref i lywio'r cais am arian o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Cae Ddol.

PENDERFYNWYD: *anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn am ymddiheuriad ac yn mynegi siom yn y diffyg cwrteisi, ymgysylltiad, ymgynghori a chyfathrebu â'r Cyngor Tref ar osod yr offer ymarfer newydd yng Nghae Ddol, a'r difaterwch amlwg ynghylch y gwaith cynhwysfawr a'r dull strategol a gymerwyd gan y Cyngor Tref i lywio'r cais am arian o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Cae Ddol.*

163. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN

Dosbarthwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod diweddaraf Bwrdd Rheoli Prosiect Felodrom Awyr Agored Gogledd Cymru ymlaen llaw. Dywedodd y Cyngorydd Gavin Harris, cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bwrdd, wrth yr Aelodau fod cynlluniau manwl o ran costau a lluniau yn cael eu paratoi, gan arwain at broses ymgynghori â rhanddeiliaid, trigolion a'r gymuned yn ystod mis Ionawr 2023. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd fod yr Hen Lys yn cael ei ddefnyddio i gynnal arddangosfa ymgynghori ar Felodrom arfaethedig Rhuthun ym mis Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: *nodir diweddariad a chynnig cynnal arddangosfa ymgynghori ar Felodrom arfaethedig Rhuthun ym mis Ionawr 2023.*

164. FFORDD YR A494 RHUTHUN I GORWEN

Nododd yr Aelodau fod ymateb wedi'i gael gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru am bryderon a godwyd gan y Cyngor Tref yn ei ohebiaeth ar 14 Hydref 2022; dosbarthwyd yr ymateb ymlaen llaw. Roedd yn dweud bod adroddiad ac argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a byddai'r ymateb yn cael ei gyhoeddi ar ôl dod i benderfyniad. O ystyried bod ymgyrch ddeisebu ffurfiol yn gofyn am welliannau i ffordd yr A494 o Rhuthun i Gorwen wedi cael ei chreu ar wefan Darren Millar AS, byddai'r cyhoedd yn cael eu hannog i ymateb drwy'r wefan honno er mwyn canolbwyntio ar un ffordd o ymateb.

PENDERFYNWYD: *nodir ymateb a gafwyd gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru.*

165. ADNEWYDDU AELODAETH CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL

Rhododd yr Aelodau ystyriaeth i adnewyddu aelodaeth y Clerc o'r gymdeithas uchod ar gyfer 2023. Dywedodd y Clerc y byddai aelodaeth gyffredinol o'r gymdeithas yn bosibl yn y tymor interim cyn i Glerc newydd ddechrau yn ei swydd.

PENDERFYNWYD: *cytunodd yr Aelodau i adnewyddu aelodaeth y Clerc o Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol.*

166. ADNEWYDDU SICRWYDD YSWIRIANT

Trafododd yr Aelodau adnewyddu sicrwydd yswiriant y Cyngor Tref gyda Zurich am y bedwaredd blwyddyn o gytundeb pum mlynedd am gost o £4,540.28. Dosbarthwyd y manylion eisoes. Gofynnwyd am ychwanegu arwyddbyst newydd y dref (sef gwerth tua £9,500).

PENDERFYNWYD: *cytuno i adnewyddu sicrwydd yswiriant y Cyngor Tref gyda Zurich am y bedwaredd blwyddyn o gytundeb pum mlynedd gyda'r gost i gynnwys y sicrwydd ychwanegol ar gyfer arwyddbyst newydd y dref. .*

167. DATGANIAD ARIANNOL

Trafododd yr Aelodau y datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod a oedd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod a oedd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2022.*

168. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwywyd talu'r eitemau canlynol:

OB	Hill & Roberts	Gwasanaeth cyfrifo a TWE – Ragfyr 2022	*	£240.00
OB	Sandra Williams	Cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod 28/11/2022	*	£90.00
OB	J&C Brimble	Dyfrio'r basgedi crog – anfoneb terfynol 2022		£1,584.00
OB	Fineline	Cardiau nadolig y Maer (50)	*	£74.25

OB	Dell Technologies	Offer TG (2x: laptops, docking stations, keyboard/mouse, monitors)	*	£1,895.22
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Costau Ethotholiad Lleol 2022		£100.00
				£50.79
OB	Broxap	Set o 4 coes ymestyn a phostio	*	£40.80
OB	KMT Electrical	Gosod a tynnu lawr goleuadau'r goeden Nadolig	*	£1,158.00
OB	KMT Electrical	Goleuadau LED newydd i'r Goeden Nadolig	*	£981.59
DD	Public Works Loan Board	Ad-daliad Benthyciad (DD on 28/12/2022)		£3,515.42
OB	BT	Costau ffon a'r rhyngwyd – Rhagfyr 2022	*	£99.68
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Microsoft 365 Rhagfyr 2022	*	£18.96
OB	Kate Harcus	Ad-daliad: LLuniaeth ac offer glanhau	*	£40.79
	O gyfrif yr Hen Lys			
OB	Viking	Hŵfyr (Henry) a bagiau llwch	*	£161.99
OB	Total Energies	Costau tanwydd - nwy	*	£130.03

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy)

Hefyd: – ad daliad i'r National Heritage Memorial Fund o £3,144.00 o'r £6,700 gwreiddiol a gafwyd (nodyn: cyfarfod o Gyngor Tref Rhuthun – Ionawr 2021).

169. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fyddai nos Lun 23 Ionawr 2023 am 7.00pm.*

170. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigiodd y Cadeirydd, ac eiliwyd y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod yr eitem a ganlyn gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth waharddiedig yn cael ei thrafod, fel y diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Cymru 1972 (fel yr amlinellir ym mharagraff 1: Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw unigolyn) ac [fel yr amlinellir ym mharagraff 3: gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu faterion busnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno)].

171. RECRIWTIO CLERC Y DREF

Dywedodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol wrth yr Aelodau am y broses o lunio rhestr fer a chyfweld ar gyfer penodi Clerc. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ddydd Gwener 16 Rhagfyr. Roedd yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol yn argymhell penodi Mr Iolo Clwyd Williams yn Clerc Tref Rhuthun a Swyddog Ariannol Cyfrifol, yn amodol ar gael geirdaon derbynol.

PENDERFYNWYD:

- (i) *Yn amodol ar gael geirdaon derbynol, bod Mr Iolo Clwyd Williams yn cael ei benodi i swydd Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol.*
- (ii) *Bod Mr Iolo Clwyd Williams, ar ol llofnodi'r contract cyflogaeth, yn cael ei awdurdodi fel llofnodwr cyfrifon banc y Cyngor Tref a thrafodion bancio ar-lein.*

172. COFNODION YR IS-BWYLLGOR ADNODDAU DYNOL

Derbyniwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a thrafododd yr Aelodau yr argymhellion ynddynt.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a chytunwyd ar yr argymhellion a ganlyn:*

- (i) *Y byddai'r Dirprwy Clerc yn ymgymryd â rôl Clerc y Dref yn y cyfnod interim, gyda'r lefel*

briodol o dâl a chefnogaeth

- (ii) *Mynd ar drywydd cymorth gweinyddol pwrpasol am hyd at 12 awr yr wythnos am gyfnod o dri mis ar sail hunan-gyflogedig, i gychwyn yn union ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.*
- (iii) *Bod gweddill gwyliau blynyddol Clerc y Dref yn cael ei dalu;*
- (iv) *Bod yr oriau diffiniedig a gronnwyd y tu hwnt i oriau contract Clerc y Dref yn cael eu talu;*
- (v) *Bod yr oriau diffiniedig a gronnwyd y tu hwnt i oriau contract y Dirprwy Glerc yn cael eu talu.*

173. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad gan y Cynghorydd Gavin Harris am Felodrom arfaethedig Rhuthun a rhoddwyd cefnogaeth i'r cynnig yn amlinellu ymrwymiad Cyngor Tref Rhuthun i'r prosiect.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad a chefnogi'r cynnig yn amlinellu ymrwymiad Cyngor Tref Rhuthun i'r prosiect.*